Library
FOR
Berkeley
California

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

GWILI.
RHEDEG AR OL CYSGODION.
HUNANGOFIANT TORRWR BEDDAU
(*Parhad*).
CARIO DWFR YM MRYNIAU CASSIA.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxvii

Hydref 1937

Rhif 10.

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

YN AWR YN BAROD.

COFIANT GWILI

E. CEFNI JONES

Pris 5s. (Drwy'r Post, 5s. 6c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

LLYFR OLAF IDWAL JONES

Cerddi Digri' Newydd

A Phethau o'r Fath.

Pris 3s. 6c. (Drwy'r Post, 3s. 9½c.)

Y mae mwy o sbri yn hwn nag a oedd yn y CERDDI DIGRI'

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—Mr. John Hopkin, Trebanos.

CYNHELIR

Cyfarfodydd yr Hydref

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

Nghapel-y-Bryn Cwrtnewydd . .

Mawrth a Mercher, Hydref 12 a 13, 1937.

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fawrth am 6.30 o'r gloch—gwasanaethir gan y Parchn. Lewis Williams a J. D. Jones, B.A., B.D.

Bore Mercher am 10.30 o'r gloch—Pwyllgor.

Prynhawn Mercher am 2 o'r gloch—Llywyddir gan Mr. John Hopkin. Anerchiad gan y Parch. T. Oswald Williams, M.A. *Testun* : " Gwasanaeth Gwilym Marles i grefydd." Ychwanegiad gan y Parch. E. O. Jenkins.

Hwyr Mercher am 6 o'r gloch—Gwasanaethir gan y Parchn. E. R. Dennis a J. Marles Thomas, M.A.

Rhaglen y Pwyllgor—

[1] Darllen Cofnodion.
[2] Ymddiswyddiad y Trysorydd.
[3] Penodi rhywun yn lle Mr. W. S. Jones i gasglu cyfran ein cyfundeb i'r Bwrdd Presbyteraidd.
[4] Derbyn adroddiad yr Is-bwyllgor ar fater " Golygydd i'r Ymofynnydd ".
[5] Ein myfyrwyr—Y Drysorfa.
[6] Lle cynnal Cyrddau'r Pasc.
[7] Unrhyw fater arall.

E. O. Jenkins.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/yr-ymofynnydd_1937-10_37_10

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

Cyfrol xxxvii. HYDREF, 1937 Rhif 10.

Gwili.

(Cofiant a Phregethau : E. Cefni Jones. Gwasg Gomer, Llandysul.)

Ni cheisiaf adolygu Cofiant Gwili, ond credaf ei fod o ran patrwm a diwyg yn werth ei ganmol. Y mae Gwasg Gomer Llandysul wedi dangos y medrant wneud crefft ar argraffu, a phan ysgrifennir hanes argraffu yng Nghymru o ddyddiau Isaac Carter yn Adpar hyd heddiw, ni bydd raid i'r Mri. J. D. Lewis a'i Feibion o Wasg Gomer blygu pen o gymharu eu gwaith ag unrhyw argraffwyr a fu o'u blaen. Y maent yn teilyngu gair o glod am waith gonest a glân. Y mae rhywbeth yn eu gwaith fel hwy eu hunain yn fonheddig, a chredaf bod argraffu Cofiant Gwili wedi bod iddynt yn waith cariad. Ni welais i mo awdur y cofiant erioed ond nid oes raid ond ei ddarllain cyn gweld ei fod yntau yn ffrind calon i'r ymadawedig.

Rywsut fe esbonia cân fach o waith Gwili ei hun y paham yr ysgriennaf.

CYFRINACH ATGOF.

Dim ond gardd a chae a chwm,
Afon fach a bwthyn llwm.

Dyna'r cyfan : ond er hyn
Mae fy llygad llon yn llyn.

Paid a gofyn imi pam :—
Hen gyfrinach mab a mam.

Mae cyfrolau gennyf i
Nid agorir byth i ti.

Nid bob amser yr ym yn fodlon agor y cyfrolau a dadlennu cyfrinach atgof, ond dyna a wnaf i yma.

Y mae blynyddoedd meithion wedi mynd er imi glywed sôn gyntaf am y gŵr a ddaeth yn Archdderwydd ei wlad, yn Athro coleg ei enwad, ac yn ŵr yn cyfrif ym myd llên a dysg a chrefydd. O'm blaen y mae hen gopi o'i bryddest,—

" Tu hwnt i'r Llen " . . . Pryddest Gystadleuol ar destyn y gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno 1896."

Yr adeg hon edrychid ar Wili fel tipyn o heretic, ac o ddarllain y feirniadaeth, gwelir ei fod wedi synnu ei feirniaid. Yn ôl beirniadaeth Berw,—" Y mae'r dysgrifiad o'r hwn a wnaeth gais am gael mynd o'r nef i uffern at ei frawd i'w ddwyn oddiyno—a'r hwn a ddywedai mai uffern iddo ef oedd y nefoedd tra'i frawd yn uffern obry—*yn dra eithafol, rhyfygus ac anysgrythyrol* " . . .

Dyma bennill o'r gân honno,—

" 'Fy mrawd, o fy mrawd yn y fflam," meddai ef :
" Uffern i mi
Oedd byw yng ngogoniant tragwyddol y Nef
Yn dy glyw di ;
Felly fe ddaethum i waered i'th nôl
Fry at y pur
Ganant yn llawen mewn gwynfyd, ar ôl
Gadael eu cur ".

Ni cheisiaf i bwyso a mesur y beirniaid, ond yng nghyfnod Tu hwnt i'r Llen yr oedd Cymru yn dechreu deffro a meddwl, a Gwili ond odid oedd y blaenorwr a geisiodd ganu Cymru i mewn i gyfnod goleuach a gwell.

Y mae ffansi yn gwneud llawer peth. Yn Llanbedr ar Awst 8, 1894, yr enillodd ei gadair gyntaf ar " Gestyll Cymru " . . .

Ni cheisiaf roi cronicl o fuddugoliaethau Gwili. Ni ddwedant nemor amdano fel bardd. Yn y Cofiant y mae erthygl arno fel *Bardd* gan Mr. Tom Parry, M.A.

" Y gerdd hir arall yw ' Mair Ei Fam Ef '. Dyma waith goreu'r bardd. Gwelir y duedd grefyddol honno sydd mor gyson yng ngweithiau Gwili, ac sydd weithiau'n dramgwydd i anian y bardd ynddo, wedi ei ffrwyno a'i disgyblu a'r bardd yn ymostwng yn wylaidd mewn syndod, yn lle mentro'n feiddgar i graidd Duwdod a phob bodolaeth fel y gwnai'r Bardd Newydd hyderus gynt :

" Wele'n nesu uchel ŵyl Nadolig,
Dithau ar uchel sedd y nefoedd lân ;
Derbyn *Ave* lon y byd Catholig,
Derbyn *Ave* lon o Wlad y Gân.

Maddau i ninnau 'Nghymru, os dysgasom
Roi it leiparch nag a hoffai'r Nef;
Cans ar Fab dy draserch y serchasom,
Rhag dy barchu di yn fwy nag ef."

Yn 1901 yr enillodd y Goron Genedlaethol ar y testun "Tywysog Tangnefedd". Bu'r goron yn hir cyn dyfod, ac ni lwyddodd wedyn er iddo gystadlu. Hwyrach mai fel beirniad yr oedd yn fwyaf enwog, ac yr oedd rhywbeth yn deg yn ei feirniadaeth. Ceisiai ddeall meddwl yr ymgeisydd, ac nid condemnio am na fai wedi canu fel y mynnai ef.

Rywsut neu gilydd, credaf ei fod yn fwy o ysgrifennwr rhyddiaith na bardd wedi'r cyfan. Ceir Gwili fel yr oedd yn ei Saith Llythyr i'r byd hwn, ac yn ei ysgrifau megis I BA LE YR AETH UFFERN?

Dychmygaf fod dynoliaeth Gwili yn chwerthin yn iachus wrth ddyfynu "ceffyl yr hen bregethwr", a dweyd,—

"Aeth
Lle'r aiff ceffylau da."

"Daeth Uffern yn fwy o sefyllfa nag o le, ac nid yw'r mudiad yn ofer sydd wedi clirio cymeriad Duw, ac wedi rhoi y fath oleuni rhyfedd ar Uffern. Llyn o dân yn y fynwes yw Uffern; a dyna paham na chlywir sôn am yr hen uffern yn y pulpudau. Nid yw, mewn ystyr, yn bod. Gwelir mae'r peth pwysig, bellach, yw apelio at gydwybodau dynion, a'u denu i garu rhinwedd ac i weithredu'n deilwng,—i fyw fel dynion bob dydd, fel na bydd i'r pryf nad yw'n marw fyw ar eu henaid, fel na bydd iddynt wybod dim yn awr am yr hyn sydd wedi'r cyfan yn wir drueni. 'I ba le yr aeth Uffern?' Symudodd o'r dyfodol pell i'r presennol agos."

Ar draed yr erthyglau hyn a ystyrid yn hereticaidd, y daeth Llin ar Lin, a hwyrach "Arweiniad i'r Testament Newydd", cyfrol drwchus o 650 o dudalennau. Nid yw yn eithafol yn ei chasgliadau. Nid wyf yn sicr nad ystyrir hi braidd yn geidwadol gan lawer o'i chymharu â chyfrolau yn Saesneg, Almaeneg neu'r Ffrangeg. Fe fyddai serch hynny yn werth i'n Hysgolion Sul o bob enwad ddarllain a myfyrio y gyfrol bwyllog hon. Cafodd amdani "*Wobr Rees*" o hanner canpunt fel y llyfr goreu yn ymwneud â Chymru, a gyhoeddesid yn ystod y flwyddyn cyn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dywedai yr Athro Maurice Jones (a dylasai ddweyd y gwir am ei fod o Lanbedr) "Na wyddai am gystal" Arweiniad i'r Testament Newydd "mewn unrhyw iaith".

Cyfrol arall ddiddorol a gwerthfawr yw ei eiddo,—

"HANFOD DUW A PHERSON CRIST."

Athrawiaeth y Drindod a Duwdod Crist yn bennaf yn ei pherthynas â Chymru . . .

Bu wrth y gyfrol hon am flynyddoedd, ac ni wn i am ddim yn y Gymraeg yn trin ar y maes. 'Dwn i ddim pam ond rywsut y mae gan y Bedyddwyr hawl i ddiolch Cymru gyfan am eu gwaith fel haneswyr. Nid ynt byth yn unochrog. Y mae rhywbeth yn deg ynddynt bob yr un. Ni wnaf fi ond enwi Joshua Thomas, Shankland a Gwili.

Y mae wedi ceisio trin y dadleuon yma'n weddol deg heb fod yn unochrog. Yr oedd y cyfrolau yma, ei waith yn y coleg, golygu papur enwad, ysgrifennu yn y papurau a phregethu a darlithio wedi'i drethu, a thrist yw brawddeg o'i eiddo yn 1932,—

" Ofni'r wyf na wnaf ryw lawer oni wnaf cyn hir—
Y mae galwad o'm hol yn peri i mi frysio " . . .

Yr oedd yn teimlo'i nerth yn gwanhau ac angau yn dynesu.

Er iddo bregethu llawer, ni chefais i y cyfleu i'w glywed erioed ond unwaith ar y radio. Y mae yn rhaid gweld dyn cyn ei wrnado yn iawn. Darllenais ei bregethau yn y gyfrol, ond esgyrn sychion yw pob pregeth oni chaiff y pregethwr ei hun anadlu arnynt gan eu bywhau. Ni wn i farn eu enwad amdano fel pregethwr. Fe ymdrechodd ymdrech deg yn erbyn llawer o ragfarn ond odid, ond daeth yn bregethwr poblogaidd yn ystyr oreu'r gair.

Nid own i yn adnabod Gwili er imi gwrdd ag ef unwaith neu ddwy yn ddiweddar. Eto credaf fy mod wedi darllain bron bob dim a ysgrifennodd. Nid wyf yn sicr nad wyf felly yn ei adnabod lawn cystal a llawer, ond yr oedd yn rhaid bod yng nghwmni Gwili cyn ei adnabod drwodd a thro. Ys dywedodd Caradog Prichard,—

" Nid wrth safonau dramatig gwŷr yr ' hwyl ' yr oedd Gwili i'w gyfrif fel pregethwr. Rhan ohono oedd pob pregeth o'i eiddo ac nid stori i'w hadrodd."

Dyma ddisgrifiad y cofiannydd ohono,—

" Meddai ar gorff mawr a llydan, ac ymddanghosai'n ddyn cryf o daldra cyffredin. Crymai gryn lawer yn ei ysgwyddau, a lled afrosgo ydoedd yn ei symudiadau. Yr oedd iddo gnwd o wallt garw, o liw melyngoch, talcen culach na chyffredin, a llygaid bychain byw heb fod yn gweld ymhell. Gwisgai wydrau bob amser. Eilliai ei farf yn lân ac yr oedd ganddo gystal rhes o ddannedd ag a fu gan neb erioed " . . . Dyna'r dyn oddiallan.

Beth am y dyn oddimewn ?

" Yr oedd yn ddyn mawr, ac nid oedd nemor gylch o wybodaeth na ragorai ynddo. Colled fawr i lên, i'r pulpud, i'r Eisteddfod, i'r Coleg ac i enwad y Bedyddwyr oedd ei golli. Beth bynnag am ei ragoriaethau, yr oedd ei ddynoliaeth yn fwy na dim a oedd ynglŷn ag ef. Ni welsom neb erioed mwy caredig, neb mwy cymwynasgar, na neb parotach i gydymdeimlo." . . .

" Meddai ar wybodaeth anhraethol. Yr oedd yn casau rhagrith ac ymffrost. Humanist mawr ydoedd—dyna a'i gwnai'r un mor ddiddorol mewn trên a bws. Gwnaeth le iddo'i hun fel emynydd, pregethwr, hanesydd ac anodd cael neb i gyfuno'r rhai hyn."

Nid oes raid sôn amdano fel Archdderwydd, a digon cymryd pennill Crwys,—

" Er bod yma Faen a meini,
Bardd ac ofydd fel o'r blaen,
Cwmwl trwm a chwmwl tywyll
Sydd uwch Gorsedd Abergwaun :
Angladd araf yw'r orymdaith
Nid yw'r delyn yn ei hwyl
Am fod Gwili yn yr Hendy,
Ac yn methu dod i'rŵyl."

Nid oes gennyf ond diolch am y gyfrol, diolch am gael darllain llyfrau Gwili a diolch am gael ei adnabod, ie, a diolch i'w ferch am ddarlunio ei thad ar yr aelwyd cystal. *Gobeithio y bydd atgof rhyw ddwy amdanaf innau mor felys ag atgof Gwen a Nest am* " Gwili ".

Ni wnaf ond dyfynu un paragraff er cloi y sylwadau hyn,—

" 'Dwyf fi'n coelio dim o hanes troi'r dŵr yn win, dad ! "

" O, sut felly, Gwen fach ? "

" Wel fy syniad i ydyw bod rhyw essens yn y jars o'r dechreu ' . .

" Aeth 'nhad ati ar unwaith i esbonio mai dameg oedd stori'r wyrth, ac mai ysbryd melys Yr Iesu a newidiodd ddyfroedd chwerwon ei gyd-oeswyr, ac a effeithiodd ar feddwl ei gyfnod a meddwl y byd i gyd heddiw. Mynnai i ni fod yn hapus fel teulu ac fel unigolion, a gallaf dystio'n ddiffuant iddo gadw pob cwmwl draw am dros ugain mlynedd. Cawsom ein dwy flynyddoedd o blentyndod hynod o ddedwydd, a da gennym gofio am diriondeb ein tad " . . .

Wrth fod ei angladd yn pasio drwy Lanbedr fe'i gwelais, am y tro olaf. Nid oedd flynyddoedd meithion er imi ei weld a siarad ag ef ar stryd Llanbedr ac yntau yn chwerthin yn galonnog o feddwl mai dyn bach o gorff oeddwn ac yn cael ei siomi, hwyrach, o'r ochr oreu.

" Fe welsom yr angladd yn pasio
A ninnau yn bennoeth mewn parch,
Tristaodd ein c'lonnau fan honno
A Gwili yn mynd yn ei arch.

* * *

Fe welsom yr angladd yn pasio,
A ninnau yn bennoeth mewn parch,
Ond llonnodd ein c'lonnau wrth gofio
Na roddwyd mo Gwili mewn arch."

T.O.W.

Rhedeg ar ol Cysgodion.

CYFANSODDODD yr arglwydd-fardd Byron ddrama nodedig i'r hon y rhoes y teitl " Caen ". Ei harwr, wrth gwrs, ydyw hwnnw—yn ôl traddodiad hynafol yr Hebreaid—a laddodd ei frawd Abel mewn ffit o eiddigedd ym moreddydd hanes dynolryw. Yn y ddrama, cyferfydd y brawdleiddiad â Satan, gelyn tybiedig Duw a dyn ; ac wedi cyfarch ei gilydd, dacw'r ddau yn dechreu ymgomio.

" A ydwyt ti'n hapus, Satan ? " ebe Caen.

" Yr wyf yn *alluog* ! " etyb Satan, gan osgoi'r cwestiwn.

" Ond a ydwyt ti'n *hapus* ? " ebe Caen drachefn, gyda phwyslais.

" Na," addefa'r un galluog, mewn tôn sy'n bradychu twts o wawd-dristwch, " nid ydwyf yn hapus ! Ai hapus *tydi*, Caen ? "

* * *

Y mae'r byd diweddar yr ydym yn byw ynddo, yr un fath â Satan Byron fardd, yn hoff o ymffrostio yn ei allu, hyd yn oed ar draul annedwyddwch chwerw wrth denynnau'r galon. Y dyn galluog ydyw dyn y foment. Y genedl nerthol ydyw'r genedl sy'n rheoli. Pan gyferfydd dau ddyn " galluog " â'i gilydd, dyna ddadlu, ymryson, ymgodymu ac ymdrechu am oruchafiaeth gan y naill a'r llall. Pan ddigwydd i ddau fuddiant hiliol wrth-daro, wele frwydr dost er penderfynu, os penderfynu a ellir, prun sydd i gael meddiannu'r ysleisen helaethaf o'r ddaear ! Dyna pryd y clywir y galluog, fel y'i dehonglir gan Milton yng " Ngholl Gwynfa," yn datgan ei dyb felltigaid mai " gwell cael teyrnasu yn uffern na gweini yn y nef ! "

Pethau tra gwahanol yw gallu a hapusrwydd, serch y dybiaeth boblogaidd fod dedwyddwch cenhedloedd ac unigolion y byd yn gymhesur â'u gallu. Satan sydd alluog, ym mha rith bynnag yr amlyga'i bresenoldeb ym mysg dynion ; ac eto, yn ôl ei addefiad ef ei hunan, od oedd Byron yn ei ddeall ef yn iawn, anhapus a fu Satan er pan adawodd ef weini yn y nefoedd er mwyn cael teyrnasu yn uffern ! Am hynny llawenhaed dynion ac angylion ; oblegid yn annedwyddwch addefedig tywysog y tywyllwch y gorwedd sail y gobaith am ei ddychweliad a hedyn y posibilrwydd o'i achubiaeth, yn hwyr neu hwyrach ! Er mwyn tangnefedd y bydysawd a hapusrwydd ei drigolion, brysied y dydd pan gyflawnir y weithred dra-dymunol honno ! Os gwir yw yr erys hyd eto rai gronynnau o'r anian satannaidd a'r sydd yn deilwng o'u harbed rhag difancoll dragwyddol, yna bydd edifeirwch y Diafol yn rhywbeth gwerth gobeithio amdano.

* * *

Yn y cyfamser, bydded i drigolion doethaf a mwyaf meddylgar y byd fyfyrio'n ddwys ar rai o nodweddion amlycaf y cyflyrau y mae'r mwyafrif o ddynolryw yn byw, bod, ymdrechu, dioddef, a marw ynddynt yn yr oes ryfedd bresennol ! Oes darganfyddiadau, dyfeisiau, a chywreinion gwerthfawr ydyw ; ond hefyd, oes anturiaethau ffôl, gwyllt, beiddgar, a phenboeth ydyw, pryd y mae " torri " rhyw " record " neu'i gilydd wedi dyfod yn wallgof-bla heintus a difaol. Uchelgais yr oes ydyw " gallu ", ei harwyddair yw " cyflymder ", a'i chlefyd sydd ysfa drachwantus ac anfodlon am " lwyddo " yn yr orchest hon neu arall, ac " ennill " hyn neu'r llall.

Eithr pa lesâd i'r ddynoliaeth os ennill yr holl fyd a cholli ei henaid ei hun ? Pa lesâd i neb ohonom allu ehedeg yn gyflymach na'r gwynt o'r naill gyfandir i'r llall, os ydym yn fwy anesmwyth ac anfodlon pan ddychwelwn nac yr oeddem cyn cychwyn ? Pa ddiben sydd yn y pryder am fedru gyrru neges o amgylch ogylch y ddaear mewn llai na deng eiliad ar hugain, oni wna'r orodd onid trymhau beichiau bywyd, heb ychwanegu dim at hapusrwydd y danfonwr na'r derbyniwr ? I ba amcan y cymer astronomyddion ni ar ymdaith chwimwth filiynnau o filltiroedd ymhlith y sêr, os bydd yr hen ddaear yma, druan ohoni, yr un mor annigonol ac anniddig ag ydoedd pan adawsom hi ? Pwy sydd mewn gwirionedd yn well neu'n hapusach er gallu sisial ei glebar wacsaw a thlodaidd drwy'r teliffon, yn lle bod dan orfod i ddilyn yr hen drefn fwy arafaidd o ddefnyddio ysgrifbin, inc, a phapur i ddweud yr hyn na fuasai'r byd a'i bobl un iod nac un tipyn tlotach pe'i gadewsid ef heb ei ddweud o gwbl ? Pa iws sydd mewn muriau addurnedig i lygaid na wna dim prydferthwch byth eu boddio ; lloerennau brodiog i draed aflonydd ; neu ddodrefn glwth i eneidiau cleifion, a chlustogau esmwyth i galonnau dolurus ? " Paham "—gofynnai rhyw broffwyd ganrifoedd lawer yn ôl—" y gweriwch arian am yr hyn nid yw fara, a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni ? "

* * *

Digoni ? Bodloni ? Ie ; dyna'r peth. Y mae mor gyfreithlon ag yw o ddymunol. Eithr a ydyw'r peth cyfreithlon a dymunol hwn yn ddichonadwy ? Ai cyrhaeddadwy'r peth hwn, yn yr oes aflonydd hon ? Sut bynnag am hynny, dyma freuddwyd yr oesoedd ! Ymhob cenhedlaeth, ac ymhob rhan o'r byd, y mae'r bobl gan mwyaf yn treulio'u dyddiau a gwario'u hegni mewn ymchwil ddiorffwys am yr hyn, yn eu dychymyg, a'u harwain at *fodlonrwydd*, neu efallai mewn cenfigennu wrth eraill y tybiant fod bodlonrwydd eisoes yn eu meddiant ! Ac eto, pa beth, mewn gwirionedd, *ydyw'r* Bodlonrwydd hwnnw yr ydym oll yn dyheu amdano ac yn ymdrechu dod o hyd iddo ? Beth ydyw ? Ymha le y mae ? Onid peth agos atom ydyw ? Onid yw yn ein hymyl ?

Dim ond rhywbeth fel aderyn bach ar garreg ein ffenestr y tu allan, neu wrth riniog ein drws, yn disgwyl am ein gorchymyn i hopian i'n dwylo ac yn barod i ganu i ni ei gân fclodaidd a llawn o lawenydd a bodlonrwydd ! Tra'r ydym ni'n rhedeg ar ôl cysgodion, wele'r aderyn bach yn ymlawenhau yn yr heulwen. Doethach yw efe na'r mwyafrif ohonom ni, er ein holl ymffrost ! Oblegid tra'r ydym ni yn ein ffolineb aflonydd yn ymlid cysgodion nad oes iddynt na sylwedd na pharhâd, gŵyr yr aderyn bach ein bod ni o hyd un ai'n anwybyddu neu ynteu'n anghofio'r Sylwedd sydd byth yn gorwedd rhwng y cysgod a'r heulwen. Yr aderyn bach a sibrydodd yng nghlust yr hen broffwyd gynt i beri iddo holi : " Paham y gweriwch arian am yr hyn nid yw fara, a'ch *llafur am yr hyn nid yw yn digoni* ? "

* * *

Erys llawer ychwaneg i'w ddywedyd am y cysgodion y rhêd pobl ar eu holau yn y dyddiau hyn ; ond rhaid terfynu yn y fan yna ar hyn o bryd.

D. Delta Evans.

Hunangofiant Torrwr Beddau.

Parhad.

Dim ond unwaith y bûm yng ngafael cyfraith y wlad. Digwyddodd hynny yn rhyfedd iawn. Ar ddamwain, claddwyd dyn mewn bedd anghywir. Ar y pryd, digwyddai'r ferch fod ar fordaith gyda'i phriod. Pan ddychwelodd, gwelodd y camsyniad, ac hysbyswyd fi o'r gwall. Addewais innai, gyda chymorth, i gywiro'r trefniadau. Daeth John Tydraw, gweithiwr o'r pentref, i'm cynorthwyo ar noson olau leuad. Wedi treulio oriau i weithio'n galed, llwyddwyd i ddwyn llun ar bethau. Brynhawn trannoeth, bu John yn yfed tipyn ar y mwyaf yn y ' Red Lion '. Ymfalchiai iddo gael sofren felen am weithio drwy'r noson gynt. Gofynnwyd am y manylion, a bu yntau'n ddigon rhydd ei dafod, a diniwed ei ysbryd i hysbysu'r cyfan. Cerddodd y stori honno i glustiau'r plisman. Casglwyd ganddo ddigon o ddeunydd i alw John a minnau o flaen ein gwell mewn llys barn. Cyfaddefais imi gyflawni'r weithred yn ddiniwed hollol, ac yn ddigon gweddus. Dadleuais na wyddwn fy mod yn troseddu'r gyfraith. Er hynny, golygodd y gymwynas hon i John a minnau dalu dwy bunt yr un o ddirwy, a rhannwyd treuliau'r llys rhyngom.

Cyn imi orffen cofnodi fy hanes yn Llan Gregyn, rhaid imi sôn am yr ofergoelion a ffynna ymysg y trigolion.

Credid yn bur gyffredinol mewn toili a chamwyll gorff. Clywais fy nhadcu yn dweud iddo ef, wrth edrych allan o'r bwthyn i'r fynwent, weled llawer i gannwyll gorff yn dawnsio yno. Dywedodd hefyd y medrai rag-ddweud am angladd wrth iddo edrych ar y ffordd a arwain o'r pentref i'r fynwent.

Un dydd, cefais ddadl frwd â John Tyhen, hen gymeriad doniol a gwreiddiol. Tyngai ef, ar bob llw iddo gael ei garlo'n fynych gan doili. " Cred fi ne bido," meddai mor sobr a sant, " ond nos Iou ddiwetha, mi es lawr i'r pentre ar neges bach. Mi ath yn hwyr cyn i fi ddod nôl. Pan own i'n paso tŷ Shami'r teilwr, mi deimles rwbeth yn y ngwasgu i, i ddechre. Gyrrwd fi i'r clawdd, wedyn, a chydies miwn bonyn eithinen. Diain i, mi ddales y ngafel nes fod y nwylo i'n dost. Dyma blwc,—a bant a fi fel llycheden, heb drôd ar y llawr nes i fi gyrradd y tu hwnt i glwyd y fynwent."

" Ble buest ti yn y pentre, John ? "

" Wel, ta ots am ny," meddai yn swil, " yn y ' Red Lion ', Tomos."

Er i John dyngu—" cyn wired a'r pader ", eto ni fedraf i ei gredu ef na thystiolaeth neb arall am fodolaeth cannwyll gorff na thoili.

Tawaf ar ôl adrodd un tro digrif a ddigwyddodd yn Llan Gregyn.

Am flynyddoedd meithion bu hen Wyddel yn gweithio ar draws ffermydd yn y gymydogaeth. Un borau cafwyd ef yn farw ar ochr y ffordd, filltir o'r pentref. Taenodd y sôn am hyn drwy'r holl ardal, a dechreuwyd casglu arian am arch a'r treuliau eraill. Dilynodd llwyddiant yr ymdrechion hyn am fod pawb yn hoff o'r Gwyddel.

Twm Sion Stephen, saer yn y gymydogaeth oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Ar ddydd yr angladd casglodd tyrfa ynghyd i dalu'r gymwynas olaf i'r hen gyfaill. Un gwall a fu yn y cyfan. Anghofiodd y saer drefnu â Mr. Jones, yr offeiriad i wasanaethu. Wedi dod i'r fynwent gofynnais i Dwm Sion Stephen os oedd Mr. Jones i ddod. " Wel, wir, weldi, mi ath y cwbwl yn ango arna i." " A beth newn ni, te, Tomos ? " gofynnais. " Dim byd, am wn i wir," oedd yr ateb. " Ond, mae'n drueni claddu'r hen frawd fel anifel, heb air bach uwch i fedd e." " Jawsti fach i, itha gwir, was," meddai'r saer. " Falle, Tomos, y bydde'n well i chi weud gair bach," awgrymais. " Itha gwir, ar fencos i." Ar ôl gosod y corff yn y bedd, a chanu emyn, safodd Twm Sion Stephen yn ben-noeth wrth y bedd. Dywedodd ychydig o eiriau o eglurhad am absenoldeb yr offeiriad. Yna—" A ma'r crwt ma, y torrwr bedde am i fi weud gair ar yr amgylchiad. O'r gore te."

Edrychodd yn syn i'r bedd, ar yr arch, ac ychwanegodd yn ddefosiynol—

" Dyn dierth wyt ti o wlad bell,—
Ta ti'n un o ni, fuset ti fowr gwell ;
Fe'th rown di nawr i orwedd gyda'n tade ;
Pan goda nhw, cwyd dithe."

* * *

Pennod III.

Cyfnewidiad mawr i mi fu dod o dangnef Llan Gregyn i dwrw Tre'r Glo. Teimlais hynny yn fy mywyd a'm gwaith. Er hynny, llonder calon i dorrwr beddau yw byw ynghanol poblogaeth gref. Po fwyaf o ddynion fydd mewn ardal, mwyaf hefyd fydd i farw yno.

Yn Llan Gregyn, y fi oedd yr unig dorrwr beddau swyddogol drwy'r fro. Yn fy nghylch newydd gosodwyd fi yn un o wyth cyson yn y gladdfa gyhoeddus. Yn ychwanegol, byddai'r ceidwad yn trefnu ein gwaith o forau hyd hwyr. Os na fyddai beddau i'w torri, yna cadwem y llwybrau yn daclus, a gofalem am y coed, y perthi, a'r blodau. Wrth gwrs, yr amcan mewn golwg oedd cadw'r fynwent yn atyniadol i'r byw.

Un o'm cyfeillion am flynyddoedd fu Ifan Huws, gŵr doniol o Dre Garon. Weithiau, byddai'n cwyno mai ychydig a fyddai'n marw. Deuai'n fynych at ei waith yn ddrwg ei hwyl. Y rheswm am hynny oedd—" Weles i ddim blinds, o'r newydd, ar lawr heddi to."

Un borau dydd Llun sylwais fod ei dristwch yn amlycach nag arfer. Gofynnais yr achos, a dyma'r ateb—" Mi fues yn y capel neithwr, a dyna gwrdd diflas geson ni. Chyhoeddon nhw ddim un angladd no."

Dro arall, mynegodd Ifan wrth gyfaill a ofynnodd ei helynt,—" Does dim hwyl wir, ychan. Chladdes i ddim ened byw ers dou ddydd."

Brydiau eraill, ynghanol angladdau mynych, gwenai Ifan Huws o glust i glust wrth gyhoeddi—" Go lew wir. Ma nhw'n marw nawr fel dynion ! "

Ar un achlysur gofynnais i Ifan—" Ble'r wyt ti am dy gladdu ? "

" Yn Nhre Garon, os byw ac iach," meddai.

Daeth dyn i'r fynwent, a holodd am fedd cyfaill iddo. Dangosodd Ifan y fangre gan ddweud,—" Mi rhoes i e'n ddiogel fan hyn, a'i fusnes e fydd dod o na."

Yna, gofynnwyd i Ifan faint o amser oedd oddiar farwolaeth yr ymadawedig. Rhoddodd yntau yr ateb hwn,—" Pe bai e wedi byw hyd dydd Sul nesa, mi fuse wedi marw ers blwyddyn."

Digwyddodd hen gymeriad gwael iawn farw. Ni chredai mewn nefoedd nac uffern. Aeth Ifan i gydymdeimlo â'r teulu, a gwelodd

y corff yn yr arch. " Dyna beth rhyfedd i weld," meddai wrthyf, " dyn wedi gwisgo mor dda, a dim un man dag e i fynd."

Daeth smaldod Ifan a llawer o bleser diniwed i'm bywyd. Gofidiaf innau heddiw oherwydd ei ymadawiad yntau at y dyrfa a gysg yn ddifreuddwyd yn naear ei hoff Dre Garon.

Oes, y mae digrifwch i'w gael hyd yn oed mewn mynwent, a chofnodaf rai troeon doniol.

Tan gofio, os bydd rhywun am wybod " y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir " am gymeriad llawer sydd yn huno dan y dywarchen, cymered air o gyngor gan hen dorrwr beddau. Peidied, bob amser, a chredu eu bedd-argraffiadau. Gyda phob difrifwch yr estynnaf y cymhelliad hwn. I'm barn onest i, ni cheir mwy o gelwydd noethlymun, yn fynych, nag mewn mynwentydd. Rhoddaf enghraifft neu ddwy o ergydion digrif a darawyd yng nghladdfa Tre'r Glo i'r arferiad.

Flynyddoedd yn ôl, claddwyd dyn o fuchedd wael yno. Cododd y perthynasau golofn hardd ar ei fedd. Arni gosodwyd y pennill rhyfedd hwn—

" Remember me, as you pass by ;
As you are now, so once was I ;
As I am now,—so you will be,—
Prepare yourself to follow me."

Yn fuan wedi hyn, un borau, digwyddais basio'r golofn, a gwelais yr ychwanegiad hwn mewn sialc,—

" To follow you I'm not content,
Unless I know the way you went ! "

* * *

Masnachwr llwyddiannus yn Nhre'r Glo oedd Mr. David Jones. Collodd ei wraig trwy angau, a gofidiodd yn chwerw oherwydd hynny. Bu'n ddigon caredig i osod carreg brydferth ar y bedd. Arni, ymddangosodd y linell yma fel mynegiad o brofiad y gŵr yn ei alar alaethus,—

" The light of my life has gone out."

Cyn pen y flwyddyn ymbriododd Mr. Jones eilchwyl. Ar forau ei briodas, gwelais i rywun ysgrifennu mewn sialc, odditan yr uchod y frawddeg hon—

" But I have struck another match."

I'w barhau.

Cario Dwfr ym Mryniau Cassia.

Gan y Parch. A. Margaret Barr.

Un o'r gorchwylion na lwyddais eto i wneyd fy hun ym mryniau Cassia ydyw cario dŵr i'r tŷ. Un rheswm am hyn ydyw fod digon o fechgyn a merched yn barod fel rheol i wneyd hyn drosof. Rheswm arall ydyw fod cario dŵr ym mryniau Cassia yn llawer mwy anodd na'r mwyafrif o'm gorchwylion.

Gan na'm ganwyd yng Nghassia ac na'm dysgwyd yn ifanc i gario pwysau fel y gwnant yno nid yw gewynnau fy ngwddf yn ddigon cryf eto i ddal ond y pwysau ysgafnaf. Llestr pres ydyw'r ysten ddŵr ac nid yw yn ysgafn o bell ffordd. Hefyd mae'r llwybr i lan yr afon yn arw a serth. Gallaf gerdded y llwybr gyda rhyw gymaint o urddas ond cael fy nwylo yn rhydd, ond peth arall fyddai treio gyda llestr trwm yn gwegian mewn basged ar fy nghefn, a minnau mewn ofn parhaus y byddai i'r cam nesaf ddanfon ffrwd oer i lawr fy nghefn. Ond hwyrach y medraf ryw ddiwrnod gario dŵr mor ddeheuig a'r fenyw yn y darlun. Hi wnai gyrchu dŵr i mi pan y daethum i Fryniau Cassia gyntaf ym mis Mai 1934. Undodwraig ydyw hi,merch un o ddisgyblion cyntaf Hajom Kissor Sing a modryb y bachgen a fabwysiadwyd gan gangen Urdd y Benywod Croydon.

Sylwch arni, y traed noeth, y sgyrt hir, y wisg am y pen a'r strap blethedig o amgylch y talcen ac o dan y fasged ar y cefn. Dillad " Ewropeaidd " a wisgir gan y mwyafrif o'r dynion ym Mryniau Cassia ond nid felly y benywod. Dillad fel eiddo y fenyw hon a wisgir ganddynt hwy. Ni wn i paham y gwisgant fel hyn, yn ddillad o'u pennau i'w traed, mewn gwlad boeth. Pan y

gofynna iddynt ni wnant ond chwerthin a dyweyd mai dyma'r ffasiwn, ac nid oes gennyf ateb i hynyna. Diolchaf mai nid dyma'm ffordd i ac nad oes *raid* i mi fod yn y ffasiwn ym Mryniau Cassia.

Nid y ffordd a ddangosir yn y darlun ydyw'r unig ffordd o gario dŵr ym Mryniau Cassia. Dechreuwyd defnyddio bwcedi fel yn ein gwlad ni ac maent yn boblogaidd lle y ceir y dŵr o'r ffynnon ac nid o'r afon. Yn nhref wir wareiddiedig Shillong mae cyngor trefol caredig wedi gosod pibau ar hyd ochr y ffordd. Ca'r trefwyr eu dŵr o'r tap fel y gwnawn ni ond mai ambell dap ar ochr yr hewl sydd yno ac nid un ymhob tŷ.

Gorchwyl gyfeillgar a chymydogol ydyw cario dŵr ym Mryniau Cassia. Cyfle braf i gael tipyn o glap a chleber tra bydd y 'sten yn araf lanw dan y pistyll neu'r ffrwd.

Cyn hir byddaf yn cario dŵr fy hun yn lle cael arall i gario trosof. Bydd hyn yn help i mi ddyfod yn agosach eto at fywydau a chalonnau bobl Cassia.

[Mae Margaret Barr yn y wlad hon yn bresennol. Bu allan yn India am yspaid a bwriada fynd yn ôl yno eto. Mae angen am gasgliadau a chyfraniadau i'r India Fund a gellir eu hanfon i'r Parch. Mortimer Rowe, Essex Hall, Essex Street, Strand, London, W.C.2. Gellir cael gwybodaeth bellach am y gwaith yn India oddiwrth Mr. Rowe.]

Y DIWEDDAR
BRIFATHRO J. PARK DAVIES, M.A., B.D.

Yn dawel bu y diwedd—i'w einioes,
Hunodd mewn tangnefedd ;
Aur goron rydd Iôn a'i hedd
I'w filwr mewn gorfoledd.

Ei wir goethion bregethau—a fwriodd
Yn ddiferol ddiliau,
A'u huchel feddyliddrychau
Ar ei ôl fydd i'w fawrhau.

Trebanos. LLANORFAB.

Priodasau.

Awst 7, yng Nghapel Gellionnen, priodwyd MEREDITH EVANS, Trebanos a ANNIE ILYD POWELL, Alltwen, y Gweinidog yn gwasanaethu.

Awst 28, yng Nghapel Ebenezer (A), Abertawe, unwyd mewn glân briodas, Mr. WILLIAM DAVID JONES, mab hynaf Mr. a Mrs. Edward Jones, Dolcoed, Ciliau Aeron, â Miss URANIA EVANS, merch ieuengaf Mr. a Mrs. John Evans, Buanllwyd, Ynystawe. Cyflawnwyd y gwasanaeth gan y Parch. J. J. Roberts, Hebron, Clydach-ar-Dawe. Yn ddedwydd y bo'r ddau.

Fore Sadwrn, Medi 18, yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr, unwyd mewn glân briodas y Parch. D. T. DAVIES, B.A., Curad Eglwys y Drindod Sanctaidd, Llandrindod Wells ac o Castle Green, Llanbedr a Nyrs MOLLIE DAVIES, unig ferch Mr. Thomas Davies y Gôf, un o flaenoriaid Brondeifi a'r diweddar Mrs. Davies, Delville, New Street, Llanbedr. Gwenau'r Nef a foed gyda hwynt illdau.

Fore Sadwrn, Medi 18, yn Eglwys Brondeifi, gan y gweinidog y Parch. T. Oswald Williams ac o flaen y cofrestrydd (Mr. Enoch Davies), unwyd mewn glân briodas Mr. EDWARD ARTHUR WELTON, 26, Harvey Road, Leytonstone Essex a Miss JENNIE DAVIES gynt o Cwmanne, Llanbedr, ond yn awr o Lundain. Bydded iddynt fod yn ddedwydd drwy gydol oes.

Marwgofion.

Gorffennaf 19, ar ôl cystudd byr REES GRIFFITH DAVIES, Coedifor, Bryngwyn Road, Cyncoed, Caerdydd, yn 74 oed. Yn unol â'i ddymuniad cafodd ei gorff ei losgi, a'r dydd Iau dilynol dygwyd ei lwch i orwedd yn ymyl gweddillion ei fam ym mynwent Carmel (A), Llandysul. I lawer o ddarllenwyr yr Ymofynnydd yr oedd yn fwy cyfarwydd fel Rees Davies, Llwynteg, Pantrasis, ac ar hyd blynyddoedd meithion—hyd nes iddo adael—cerddai'n rheolaidd i'r gwasanaeth yn Llwynrhydowen : anfynych y collai'r cwrdd neu'r Ysgol Sul. Bu am flynyddoedd yn ysgrifennydd y gynulleidfa. Nodwedd amlwg iawn yn ei fywyd oedd diniweidrwydd : yr oedd o anian ryfeddol o ddiniwed a medrai fod yn llawen a smala ei ddywediadau. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd weddw, Mrs. Margaret Lloyd-Davies i wylo ei golli, a llawer o ffrindiau.

Ar Orffennaf 21 bu farw REES COPE, Ohio Stores, Trebanos, yn 71 mlwydd oed. Hannai o Ystalyfera, ond treuliodd hanner ei oes yn Nhrebanos. Hyd at ryw chwe mlynedd yn ôl bu'n dilyn ei orchwyl fel *Rollerman* yng ngwaith y Gilbertsons, Pontardawe. Gŵr siriol a chwmniwr dymunol ydoedd, yn fawr ei barch yn yr ardal. Nid yn aml y byddai ei le'n wâg yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Ngellionnen a'r Graig. Yr oedd i'r achos gorau le cynnes yn ei galon, a chawsai popeth a fyddai'n help i lwyddiant yr achos ei gefnogaeth a'i gydymdeimlad llwyraf. Daeth nifer liosog o'i ffrindiau y dydd Llun dilynol i osod ei weddillion ym mynwent Gellionnen. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones (Gweinidog), D. H. Lloyd, Clydach, E. T. Evans ac Ivor Jones, Ystalyfera. Estynnir cydymdeimlad dwfn i'r weddw a'r plant a'r perthynasau ereill yn eu galar. [Yr oedd hwn mewn llaw gogyfer a rhifyn Medi.—Gol.]

Claddwyd yn Hen Dŷ Cwrdd Cefn Coed ar y 25ain o Awst, Mrs. EMMA PARRY yn 76 oed. Gweddw oedd i'r diweddar Mr. Evan Parry o Bontshaen, Sir Aberteifi. Tarddai allan o hen deulu Undodaidd—ŵyres oedd i John a Sarah (Sally) Enoch o Benydarren, a merch i Mrs. Margaret Jenkins. Bu'r teulu yn aelodau selog yn Nowlais er cychwyniad yr achos yn 1881, a bu hithau yn ysgrifennyddes yn y Capel am flynyddau. Tra y gallai, mynychai bob gwasanaeth Undodaidd yn yr ardal, a chyn sefydlu'r achos yn Nowlais addolai yn yr Hen Dŷ Cwrdd—hen gysegr y teulu a man eu claddu heddiw. Gadawodd mewn hiraeth ar ei hôl Mr. David Parry (mab), Miss Mary Jenkins (chwaer), Mr. John Jenkins (brawd), dwy ŵyres a phump o ŵyrion, a llawer o gyfeillion. Cymerwyd y gwasanaeth yn y tŷ, yn y Capel, ac ar lan y bedd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A. Cadwodd ei ffydd hyd at y diwedd.

Awst 28, yn 76 mlwydd oed, EVAN JACOB THOMAS, 9, Pen-y-dre, Rhiwbina, Caerdydd. Mab ydoedd i'r diweddar Mr. a Mrs. Jacob Thomas, Cwrtnewydd, a brawd i'r diweddar Barch. T. Arthur Thomas, Llandysul. Dysgodd y grefft o wehydd gan ei dad, a bu yn dilyn y grefft hon am rai blynyddau. yng Nghwrtnewydd. Yr oedd ei nôd yn uwch a llwyddodd i gael ei benodi yn Reolwr un o siopau Tayler a Tucker, Bryste, yn Abertawe. Bu yn y lle hwn am dros ddeuddeg mlynedd a deugain, ac enillodd ymddiriedaeth ei feistri. Amhriod ydoedd, ac ar ôl iddo ymneillduo o'i waith bu yn lletya gyda'i frawd yn Llandysul, a chyda Mrs. Arthur Thomas tra y bu hi byw yng Nghaerdydd, a chyda pherthynas iddo yn Llysteg, Aberaeron, ac yn ddiweddaf gyda nai iddo yng Nghaerdydd, sef mab i'w ddiweddar frawd Dafydd. Yr oedd yn foneddwr wrth natur, ac uwchlaw pob peth iselwael a diegwyddor. Yr oedd hynny, ynghyd a'i ysbryd siriol a charedig, a'i dymer hawddgar wedi ennill pawb i'w hoffi. Tra yn Abertawe bu yn aelod selog o'n heglwys ni yno, ac yn gynorthwywr da i'r achos. Tra yn Aberaeron deuai i'r gwasanaeth yng Nghapel Ciliau Aeron, a dymunai cael ei ystyried yn aelod o'r eglwys hon. Cyfrannai at y weinidogaeth yma, ac at dreuliau eraill yr eglwys. Cymerai ddiddordeb mawr mewn pob peth perthynol i'r achos Undodaidd. Nid oedd ei iechyd yn dda er's tair blynedd, a gwaelodd ychydig fisoedd yn ôl. Claddwyd yng nghladdfa gyhoeddus Pantmawr, Whitchurch, Caerdydd. Gwasanaethwyd gan y Parch. Samuel Jones, (A), Beulah, Whitchurch, Caerdydd. Efe oedd yr olaf o'r teulu.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYDDIANT.—Dymunwn fynegi ein llawenydd oblegid llwyddiant Miss Jane Davies, merch hynaf yr Henadur Simon Davies, Y.H. a Mrs. Davies, Greengrove, Felinfach, Ceredigion. Mae wedi ennill y radd o N.D.D. Nid hynny yn unig sydd i'w ddweyd ond hefyd ei bod wedi ei ennill mewn byr amser. Dengys hynny allu ac ymroad.

Profi wnest dy fod 'n feddiannol
Ar ddau beth sy'n wir hanfodol—
Gallu meddwl, gallu gweithio :
Byth na foed i ti'u dibrisio.

Yn dy wylio byddwn eto,
Am ein bod yn dy anwylo,
A'n dymuniad boed it' goelio
Yw i ti gael lle i weithio. L.W.

TREBANOS.—Llongyfarchwn Miss M. J. Davies, Bryn-rhedyn, Trebanos, ar ei gwaith yn cipio'r wobr flaenaf yn Esiteddfod Genedlaethol Machynlleth am wau siaced wely. Cydnabyddir Miss Davies fel un sy'n fedrus gyda'r nodwydd, ac o bryd i bryd y mae ei gwaith wedi ennill canmoliaeth yr awdurdodau. Dyry gymorth parod bob amser i'r "Fancy-work Stall" yn y Basâr a gynhelir yn flynyddol gan Urdd y Gwragedd. Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu yn Adran Crefft a Chelfyddyd yr Eisteddfod, ac hyderwn y bydd iddi barhau i "fynd ymlaen ac yn uwch o hyd."——Bu'r pwyllgor adeiladu'n ddiwyd yn ddiweddar gyda'r paratoadau ar gyfer y Neuadd Newydd y bwriedir ei chodi at wasanaeth Capel y Graig. Oddiwrth y plan fe ymddengys yn adeilad defnyddiol dros ben. Dechreuir yn fuan ar y gwaith o adeiladu, ac y mae'r contract yn llaw'r Meistri H. H. ac Elgar Morgan, Trebanos. Gwerthfawrogir yn fawr gyfraniadau haelionnus caredigion yr achos at y gronfa adeiladu.——Bu Urdd y Gwragedd hefyd yn ddiwyd yn paratoi y Te a'r *Sale of Work* a gynhaliwyd ar Fedi 16. Agorwyd gan Mr. E. Lewis, Y.H., Trebanos.

UNDODIAID CYMREIG LLUNDAIN.—Cynhelir yr ail wasanaeth Cymraeg ynghapel Undodiaid Stamford Street, Llundain, dydd Sul, Tachwedd 7 am 4 o'r gloch. Gwasanaethir gan y Parch. F. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Hyderir y gwna Undodiaid Cymreig y Brif-ddinas bob ymdrech i bresenoli eu hunain.

LLONGYFARCHIAD.—Yn y papur newydd gwelais fod fy hen gyfaill Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc., Aberystwyth, wedi'i benodi yn Brifathro Coleg Henadurol Caerfyrddin. Yr wyf yn llawenhau mewn rhagor nag un ystyr. Aelod o Frondeifi yw y Prifathro newydd, a chredaf nad oes Wr Bonheddig o Gristion gwell wedi llanw'r swydd erioed. Y mae y Prifathro a minnau wedi cerdded llwybrau *odd.* Dw i ddim yn siŵr nag oherwydd ei wrthod yn Rhydychen y collodd y pulpud ŵr o ddynoliaeth fraf beth bynnag am bregethwr huawdl. Gobeithio yr ailgydia yn ei gariad cyntaf ac y cawn ei glywed yn pregethu eto. Ni feddyliais y buasai y Bwrdd Presbyteraidd yn gwneud dim cyffelyb. A dweyd y gwir nid oes gennyf fawr o olwg arnynt er eu bod yn Undodiaid bob yr un, ond yr wyf yn gweld yn awr y daw fy nhro innau i lanw'r swydd ryw ddydd os caf fyw yn ddigon hen. Rhyw chwe mlynedd ar hugain yn ôl ceisiais am ysgoloriaeth y Bwrdd, ond arall a'i cafodd, ac er imi gael addewid amdani y flwyddyn ddilynol ni welais mohoni eto. Ar eu gwaethaf y cefais i goleg. Diolch i rywun heblaw y Bwrdd Presbyteraidd am gynhorthwy. . . . Cofus gennyf hefyd i mi gael addewid am ryw arian oddiwrth yr enwad yn Llundain yr un adeg, a dyna'r unig beth a gefais—addewid, ac ni thalodd neb am ei goleg ag addewidion eto. Pwy ŵyr na chaf y swydd ganddynt am y cam gynt? Cwestiwn arall yw popeth arall. Y mae gan y Prifathro newydd un *claim* rhagor na mi ar y swydd—bu ef am un tymor (1894-5) yn efrydydd yn y coleg. . . . Yn sicr ni bydd gan yr efrydwyr gyfaill mwy didwyll a gonest na'r Prifathro newydd, ac nid oes raid i neb bryderu na chaiff pob enwad barch ganddo, ac y gwelir crefydd yma eto wedi'i gwisgo yn ei lliwiau harddaf ym mywyd a chymeriad y Prifathro Newydd. Ni wn beth sydd i ddigwydd i Barcy-felfed. Gobeithio na chauir mo'r drws, ac ni chauir mohono os medr y Prifathro ei gadw ar agor mewn unrhyw fodd. Gobeithio y llwydda i wneud i'r hen Goleg sefyll yn uchel ym marn y wlad, ac y bydd ei ddylanwad i'w deimlo ar gymeriad pob myfyriwr. Yr wyf yn sicr bod dymuniad goreu pob Undodwr gyda'r Prifathro yn ei swydd newydd.

Y mae rhai Marwgofion mewn llaw. Cânt ymddangos yn y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE NO. 209.